Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , 27 **Awst 2019** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-08/19: Presennol
Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader
Cyng. Phil Jones; Cyng. William A Evans; Cyng. Robert T Price; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Angela Hughes

Clerc – Dr Catrin Jones.

Ms Caryl Lewis yn bresennol ar gyfer eitem 11 Astudiaeth Dichonoldeb y Llyfrgell

2-08/19 Ymddiheuriadau:

Cyng. Sian Williams; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Dr Ian Rees;

3-08/19: Datgan diddordeb

4-08/19 Cadarnhau cofnodion mis Gorffennaf 2019
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-08/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

a. Nodwyd bod y gwasanaeth Bws i Gaernarfon yn cychwyn ar 27 Awst – bydd 4 bws y dydd i Gaernarfon . Da iawn oedd nodi bod Cyngor Gwynedd wedi llwyddo gyda hyn. Roedd y Cyngor Tref wedi bod yn cyfathrebu ar y mater yma gyda Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau gwasanaeth.

b. Llongyfarchwyd Ms Emma Buckley ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llanrwst.

6-08/19: Gohebiaeth

a. **Cefnogi Annibyniaeth - e-byst dyddiedig 16 a 17 Gorffennaf gan drigolion yn gofyn am drafodaeth a phleidlais gan y Cyngor**
Roedd e-bost wedi eu cyflwyno gan ddau o drigolion y dref yn gofyn am drafodaeth a phleidlais ar gefnogaeth i annibyniaeth i Gymru gan y Cyngor Tref.

Penderfyniad: Yn dilyn trafodaeth nid oedd y Cyngor Tref yn gweld hi'n briodol i ddatgan barn ar fater gwleidyddol.

b. **Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ardal Dwyfor Rhif 2) 2019 - e-bost 6 Awst**
Roedd bwriad gan Cyngor Gwynedd i wneud Ffordd Dosbarth 2 B4411 Criccieth yn "dim aros ar unrhyw adeg ar ddwy ochr y ffordd ger ei chyffyrdd a Ty'n Rhos a Waen Helyg

Penderfyniad: Cytuno gyda'r bwriad.

c. **Groynes Traeth Min y Môr Criccieth - e-bost 6 Awst**
Nodwyd cyfathrebiaeth gan Cyngor Gwynedd am y consyrn roedd wedi ei fynegi gan y Cyng. Eirwyn Williams am grwyni Criccieth. Roeddynt am wneud cais i Lywodraeth Cymru am arian cyfalaf i allu comisiynu Peiriannydd sy'n arbenigo yn yr arfordir i edrych i mewn i'r sefyllfa, gyda'r gobaith y bydd yn gallu argymell ffordd mwy effeithio o reoli lefel y traeth tuag at y dyfodol. Roeddynt yn gobeithio clywed nôl gan Lywodraeth Cymru yn fuan.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

d. **Un Llais Cymru Canllaw i Ymarferwyr - e-bost 8 Awst**
Nodwyd y fersiwn ddiweddaraf o ganllaw Llywodraethant ac Atebolrwydd i gynorthwyo'r Cyngor i reoli ein cyllid yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan reoliadau a rheolaeth ariannol dda - bydd angen adolygu rheoliadau cyllid y Cyngor Tref yn sgil cyhoeddi rheoliadau diwygiedig NALC.

Penderfyniad:
Derbyn y wybodaeth a chyfeirio at yr Is-bwyllgor Cyllid, Rheolaeth a Pholisi'r Cyngor Tref ar gyfer ystyriaeth.

e. **Un Llais Cymru Sesiynau Hyfforddi Gogledd Cymru - e-bost 12 ac 19 Awst**
Roedd y rhestr cyrsiau wedi eu cylchredeg

Penderfyniad:
Derbyn y wybodaeth

f. **Mant**ell Gwynedd - Cynhadledd a chyfarfod cyffredinol blynyddol 13 Tachwedd - e-bost 20 Awst
Manylion wedi ei chylchredeg gyda gwahoddiad i fynychu.

Penderfyniad:
Derbyn y wybodaeth – cynghorwyr i archebu lle os byddant yn dymuno mynychu.

7-08/19: Ceisiadau Cynllunio

a. C19/0720/35/LL Trosi uned byw i 3 fflat hunangynhaliol, Medical Hall 54, Stryd Fawr, Criccieth, LL52 0EY

Penderfyniad:
Dim gwrthwynebiad

Ers cyhoeddi'r agenda:

b. C18/0871/35/LL - Newid defnydd anecs i lety gwyliau - Eirianedd, Rhos Bach, Criccieth, LL52 0EP - nodwyd bod apêl wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru parthed y safle ac y byddai unrhyw sylwadau ar y cais yn cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru ac i'r apelydd. Roedd y Cyngor Tref wedi ystyried y cais ym Mis Tachwedd 2018 ac nid oedd gwrthwynebiad iddo.
Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

8-08/19: Llenwi sedd wag y Cyngor Tref

Roedd dau gais wedi dod i law erbyn y dyddiad cau ac wedi eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor Tref: Cyflwynwyd y ddau gais i'r Cyngor Tref ar gyfer ystyriaeth ac yn unol â rheol 27 o'r Rheoliadau Sefydlog ar gyfer Cyfethol i Sedd Wag wnaeth yr aelodau bleidleisio yn gudd am ymgeisydd o'u dewis gan fod mwy nag un ymgeisydd ar gyfer y sedd.

Penderfyniad:
Canlyniad y bleidlais oedd i gyfethol Mrs Nan Davies-Hughes yn gynghorydd Tref Criccieth ac y dylai arwyddo ffurflen derbyn swydd erbyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref. Bydd llythyr o ddiolch yn mynd i'r ymgeisydd aflwyddiannus.

9-08/19: Awdit Allanol o gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer 2018-19

Nodwyd bod ymholiad wedi dod o swyddfa'r BDO oherwydd lleihad yn y derbyniadau ar gyfer y flwyddyn. Roedd esboniad ei ddarparu yn y dystiolaeth a oedd wedi ei gyflwyno iddynt, ond nid oedd yn dadansoddi'r gwahaniaethau gyda symiau i alluogi'r BDO i ddeall yn llawn ac i ddod i gasgliad. Roedd y Clerc wedi danfon ymateb.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

10-08/19 Adroddiad Blynyddol y Cyngor Tref 2018-19

Roedd y Clerc wedi paratoi adroddiad drafft blynyddol a oedd wedi ei gylchredeg. Hwn oedd adroddiad blynyddol cyntaf y Cyngor Tref. Roedd pris ar gyfer argraffu am rifau gwahanol mewn print wedi'i dderbyn.

Penderfyniad:

Cytunwyd mai'r brif ffordd o wneud yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd oedd i'w gyhoeddi ar safle We'r Cyngor Tref. Er mwyn sicrhau cyrhaeddiad cytunwyd hefyd i brintio 200 o gopïau i ddechrau a fyddai ar gael mewn lleoliadau gwahanol yn y dref, gan gynnwys y Llyfrgell, y Ganolfan Iechyd, cartrefi henoed a rhai o siopau'r Stryd Fawr a hefyd diwrnod ymgynghori'r Cyngor ar 4 Medi. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

11-08/19 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

a. Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell -

(i) Cafwyd adroddiad gan Ms Caryl Lewis o Gwmni Celyn am fanylion y Diwrnod Ymgynghori i'w gynnal ar 4ydd Medi yn Neuadd Goffa Criccieth. Cafwyd trafodaeth ar gynnwys yr holiadur barn. Nodwyd bod llythyr wedi ei gylchredeg i bob tŷ yng Nghriccieth a gwahoddiad ar e-bost i grwpiau/cymdeithasau i fynychu.

Penderfyniad: Diolch yn fawr iawn i Ms Caryl Lewis am fynychu a hefyd i'r Neuadd Goffa sydd wedi cytuno i roi'r gofod am ddim gan ei fod yn ddigwyddiad cymunedol.

(ii) Adroddiad QS ar adeilad yr Hen Lyfrgell. Nodwyd bod adroddiad gan y QS newydd ei derbyn ac wedi ei gylchredeg i aelodau y diwrnod hwnnw.

Penderfyniad:
I drafod yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

b. Strydoedd Unigryw

Nodwyd bod trefniadau wedi mynd yn arbennig o dda ar gyfer diwrnod y Digwyddiad Creadigol a gynhaliwyd ar 3ydd Awst yng ngardd y Lion. Roedd tua 1,000 wedi ymweld a 200 wedi mynychu'r Ardd Natur. O ganlyniad roedd siopau'r Stryd Fawr wedi bod yn hynod brysur Roedd adborth da iawn gan berchnogion siopau a mynychwyr y digwyddiad. - Y bwriad yw gwneud hwn yn ddigwyddiad blynyddol. Bydd y digwyddiad nesaf ar yr 2ail o Dachwedd gyda dadorchuddiad cerflun Howard Bowcott ar y Maes. Bydd manylion i ddilyn.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth a diolch yn fawr iawn i'r trefnwyr i gyd am eu gwaith ac i'r rhai fu'n stiwardio.

c. **Asesiad angen tai fforddiadwy** - roedd llythyron wedi mynd i bob tŷ yn y dref ac ar e-bost i gymdeithasau- a bydd yr ymgynghoriad gyda'r gymuned ar yr un diwrnod ag yr ymgynghoriad ar Adeilad y Llyfrgell - 4ydd Medi yn y Neuadd Goffa.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth.

d. **Cynllun Cymunedol - -cofnodion Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth 30 Gorffennaf** 2019.

Roedd cofnodion y Grŵp Llywio wedi ei gylchredeg. Roedd y Grŵp yn argymell y blaenoriaethau isod ar gyfer gweithredu a gwariant gan Gyngor Tref.

(i) lleoli pedair mainc newydd 'plastic wood' yn y dref: ger yr hen jêl, ger Bron Rhiw, llecyn gyferbyn a'r siop esgidiau, tu allan i'r Swyddfa Bost. Amcan bris o tua £1,000
(ii) edrych ar bosibilrwydd o sefydlu WiFi gyhoeddus yn y dref
(iii) offer ffitrwydd awyr agored
(iv)cael lleoliad i bobl ifanc ymgynnull
(v) ystyried y ffyrdd gorau o sicrhau llais i bobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.
(vi) trefnu arolwg o gyflwr y coed yn y dref yn flaenoriaeth, ynghyd a chynllun ar gyfer plannu pellach
(vii) Edrych i gynhyrchu map o Griccieth
(viii) Gwella arwyddion - Dylai'r Cyngor Tref osod rhai arwyddion eu hunain gan gadw at arferion maint, lliw ayb. Yr un cyntaf ddylai fod arwydd ar gyfer y maes parcio.
(ix) Dyfodol Adeilad yr Hen Lyfrgell – dibynnol ar yr Astudiaeth Dichonoldeb a thrafodaethau pellach a phenderfyniad gan y Cyngor Tref.

Penderfyniad:

I gymeradwyo'r cofnodion ac argymhellion a hefyd yr Adroddiad Cynnydd a Blaenoriaethau am Weithredu Pellach ac y dylid paratoi cynllun gwariant gan hefyd ystyried ffynonellau cyllid allanol i gefnogi'r Cynllun Cymunedol.

Yn sgil y Cynllun Cymunedol a'r cyfeiriad ynddo i'r jet sgis, codwyd fel mater brys y consyrn am ddigwyddiad ofnadwy o beryglus gydag ymddygiad criw o jet sgiwyr yng Nghriccieth ar benwythnos Gŵyl y Banc Mis Awst. Roedd adroddiad wedi mynd at yr heddlu a oedd yn ymchwilio i'r mater.

Penderfyniad:
I ysgrifennu at Cyngor Gwynedd yn mynegi consyrn y Cyngor Tref ac i alw ar y Cyngor i wahardd defnydd o gerbydau dŵr personol a jet sigs yn y dyfroedd o gwmpas Bae Criccieth. Byddai hyn yn golygu eu gwahardd rhag mynediad i ddyfroedd o gwmpas Criccieth, Traeth y Graig Ddu, Porthmadog a Pwllheli. Roedd hyn o ganlyniad i ddefnydd peryglus o gerbydau dŵr personol o'r traeth ac o gwmpas ardal Bae Criccieth. Byddai hyn er mwyn sicrhau mwynhad tawel o'r traethau, eu defnydd diogel gan nofwyr a chaiacwyr a phadl fyrddwyr ac er mwyn gwarchod bywyd gwyllt lleol ac ecosystemau bregus. Cytunwyd hefyd i gychwyn deiseb i'w arwyddo er mwyn cefnogi'r gwaharddiad.

e. Cais am grant Cyngor Gwynedd "Edrych ar ôl ein gilydd" - cylchredwyd manylion cais am grant o £2,000 a fyddai'n cefnogi amcanion Cynllun Cymunedol Criccieth.

Penderfyniad:
Cytuno i gyflwyno'r bid mewn partneriaeth gyda grwpiau priodol yn y dref.

12-08/19 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Aros am ymateb Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth

13-08/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol

a. Nodwyd bod adroddiad gan Swyddog Cyngor Gwynedd i'w ddisgwyl ynglŷn â'r drafnidiaeth o gyfeiriad Pwllheli .
b. Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu at Cyngor Gwynedd i gadarnhau cefnogaeth y Cyngor Tref i safiad trigolion Ty'n Rhos nad oedd y croesiad newydd yn ddigonol ac wedi danfon copi o'r petisiwn ganddynt. Roedd yn aros am ymateb.

Penderfyniad:

Y Clerc i holi am ddiweddariad am yr adroddiad (a) uchod.

14-08/19 Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Dim byd i'w adrodd

15-08/19 Parcio yng Nghriccieth

Aros am ymateb gan Swyddog Cyngor Gwynedd ar gyfer yr arwyddion.

Penderfyniad:

Y Clerc i holi am ddiweddariad.

16-08/19 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

17-08/19 Meinciau Tref Criccieth

Nodwyd bod y costau ar gyfer deunydd i adnewyddu meinciau'r dref wedi ei dderbyn ac i'w dalu ar ddiwedd y cyfarfod. Roedd y gwaith wedi cychwyn ac wedi ei ohirio dros yr haf oherwydd prysurdeb y dref gydag ymwelwyr ar eu gwyliau.

Penderfyniad:

Derbyn yr adroddiad a diolch yn fawr iawn i aelodau Criccieth yn ei Blodau a'r Grŵp Amgylcheddol am eu gwaith.

18-08/19 Llwybrau Cyhoeddus – gan gynnwys Llwybr 11

Aros am adroddiad nol gan Swyddog Cyngor Gwynedd. Mae'r Cyng. Wayne Roberts wedi tynnu sylw aelod y Cynulliad at y broblem ac mi fydd y Clerc yn trefnu cyfarfod i baratoi llythyr at aelod y Cynulliad.

Penderfyniad:.

Derbyn y wybodaeth

19-08/19 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref

Roedd yr hysbysfwrdd newydd yn ei le ac wedi derbyn sylwadau cefnogol iawn gan drigolion.

Penderfyniad:.

Derbyn y wybodaeth a chytuno bod yr hysbysfwrdd newydd yn drawiadol iawn ac yn fuddiol er mwyn gwella rhannu gwybodaeth i drigolion.

20 -08/19 Derbyniadau

Dim

21-08/19: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £34.09 (siec 101347)
- Cyflog y Clerc (Awst) £755.66 (siec 101348)
- Gwasg Cymru £85.00 (siec 101349)
- Costau Teithio (Clerc) £126.80 (siec 101350)
- Dream Internet Solutions £240.00 (siec 101351)
- Ms Ann Llwyd £96.00 (siec 101352)
- Mrs M Jones £141.84 (siec 101353)
- RBL Poppy Appeal £17.00 (siec 101354)

Penderfyniad:

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 9 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 24 Medi 2019**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **16 Medi 2019**f**